




SENEDD!



Adroddiad Swyddog Nate Pidcock

**Senedd
02/11/2020**

Crynodeb gan y Llywydd:

Mae un peth yn sicr, nid hon oedd y flwyddyn y gwnaethon ni'r tîm swyddogion ei rhagweld. Gan ein bod ni wedi cael ein hethol yn ôl ym mis Mawrth, wythnos cyn i'r cyfnod clo cenedlaethol ddod i rym, roedd gan bob un ohonom weledigaeth wahanol ar gyfer sut roeddem yn disgwyl i eleni droi allan. Er gwaethaf hynny, rwy'n credu ein bod ni wedi dod at ein gilydd fel tîm i wneud y gorau y gallwn dros fyfyrwyr, yn yr hyn na ellir ond ei disgrifio fel un o'r blynyddoedd rhyfeddaf ac anoddaf y mae myfyrwyr a swyddogion sabothol wedi ei hwynebu erioed. I baratoi ar gyfer y flwyddyn wallgof hon, fe dreuliwyd y rhan fywaf o'r mis cyntaf yn ymgymryd â gwahanol fathau o hyfforddiant ac adeiladu tîm; gan ein cryfhau fel tîm a'n darparu â'r sgiliau sydd eu hangen arnom i ymdopi â'r flwyddyn.

Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, rwyf wedi cael nifer o fuddugoliaethau yr wyf yn falch iawn ohonynt. Y gyntaf oedd gweithio gyda'n hadran ryngwladol i ddarparu adloniant ac estyn croeso i'n myfyrwyr rhyngwladol y bu rhaid iddynt hunan-ynysu am bythefnos ar ôl cyrraedd Aberystwyth. Arweiniodd hyn at berthynas waith wych gyda'r adran, a roddodd gyllid i'r undeb wedi hynny i ddarparu pecynnau gofal i'r myfyrwyr hyn yn ystod eu hamser ar wahân - bonws enfawr gan mai llesiant myfyrwyr yw un o fy mhrif flaenoriaethau. Ochr yn ochr â hyn, rwyf wedi bod yn gweithio gyda Bar Cwtch i ostwng prisiau eu bwydydd parod; roedd myfyrwyr wrth eu bodd, gyda dros 100 yn hoffi'r syniad ar facebook, ac un myfyriwr yn dweud "Dyma'r math o newyddion da rydw i'n hoffi ei weld, da iawn Llywydd". Y mis hwn, llwyddais hefyd i gynnal ein diwrnod codi arian ar gyfer yr Hen Goleg, gyda help llawer o glybiau a chymdeithasau - rydym wedi codi £206 ar gyfer ailddatblygu'r adeilad, a fydd yn ganolbwynt i Aberystwyth, ac ar gael i fyfyrwyr a'r gymuned. Yn olaf, trwy gydol y tymor rwyf wedi cynrychioli llais myfyrwyr mewn nifer o bwyllgorau fel y Cyngor, y Senedd, y Bwrdd Academaidd a'r RPC i enwi ond ychydig ohonynt, gan sicrhau bod myfyrwyr bob amser wrth galon pob penderfyniad a wneir o fewn y brifysgol.





SENEDD!



Yn ystod yr wythnosau diwethaf, rydym wedi gweld nifer cynyddol o fyfyrwyr yn hunan-ynysu, ac fel Undeb fe benderfynwyd bod angen i ni weithredu. Rwyf wedi bod yn cludo sawl llond fan o hanfodion rhwng archfarchnadoedd a'r campws, yn amrywio o bapur tŷ bach i basta. Fel tîm rydym wedi casglu'r rhain ynghyd ar gyfer ein myfyrwyr, ac mae'n rhywbeth rydym yn falch iawn ohono.

Wythnos 'Mae'r Ferch Aber Hon yn Gallu'

Fel rhan o'n hwythnos flynyddol 'Mae'r Ferch Hon yn Gallu', fe gynhaliwyd ymgyrch rithwir yn llwyddiannus trwy gydol yr wythnos gyda chymorth llawer o glybiau a chymdeithasu. Roedd yr ymgyrch eleni'n cynnwys digwyddiadau rhithwir, erthyglau ysgrifenedig, proffiliau o chwaraewyr, sesiynau ymarfer corff gyda chlybiau, gweithdy *Environmenstrual*, a sesiynau ioga. Nod pob un o'r digwyddiadau hyn oedd dathlu ein myfyrwyr Aber sy'n diffinio fel menywod a phobl sydd wedi'u halinio â menywod. Rydym yn edrych ymlaen at ehangu'r ymgyrch i feysydd eraill o fywyd myfyrwyr yn y blynyddoedd i ddod, fel y byd academaidd ac ymgysylltu â'r gymuned.

Digwyddiadau Wythnos y Glas

Er gwaethaf y ffaith y bu rhaid i ni gynnal wythnos y glas yn rhithwir, rydym yn hynod falch o'r ystod o weithgareddau a gynhaliwyd trwy gydol yr wythnos. Fe wnaeth clybiau a chymdeithasau gymryd yr awenau mewn gwirionedd, gan ddychmygu rhai ffyrdd creadigol iawn o annog cyfranogiad glasfyfyrwyr, fel Nosweithiau Dirgelwch Llofruddiaeth dros Zoom. Cyn i ni orfod atal gweithgareddau diriaethol, roeddem wedi trefnu rhai digwyddiadau cymdeithasu gwych - gan ddefnyddio'r gofod sydd gennym yma yn Aber. Trefnodd cymdeithasau deithiau cerdded, heicio a choelcerthi ar y traeth - dan amodau diogel oedd yn cynnal pellter cymdeithasol, gan gadw at y rheolau; roedd y rhain yn gyfle gwych i fyfyrwyr newydd gwrdd â chlybiau a chymdeithasu am y tro cyntaf.



SENEDD!

Hefyd cynhaliwyd sgysiau ar gyfer y glasfyrwyr, oedd yn gyfle i fyfyrwr gwrdd â phobl o'r un anian â nhw a gwneud ffrindiau newydd mewn ystafelloedd ar Zoom wedi'i rhannu fesul thema. Yn ogystal â hyn, cynhaliais gwis mawr rhithwir ar gyfer y glas - roedd llawer o fyfyrwr wedi mwynhau'r profiad fel cyfle i dorri'r iâ ar eu noson gyntaf yn Aber. Mewn cydweithrediad â'r Brifysgol, roedd gennym sgrin fawr gydag adloniant byw trwy gydol yr wythnos, gyda seddi wedi'u pellhau'n gymdeithasol i fyfyrwr gymdeithasu gyda'u cyd-letywyr. Roedd yna hefyd amrywiaeth eang o stondinau bwyd ar gael, a oedd yn gyfle i lawer o fyfyrwr gymdeithasu â ffrindiau newydd mewn ffordd ddiogel.

Staff newydd

Dros yr ychydig fisoedd diwethaf rydym wedi llenwi llawer o swyddi yn yr Undeb. Y gyntaf yw Alice, fel ein cydlynnydd Ymgyrchoedd a Democratiaeth - rôl sy'n hanfodol i fywyd myfyrwr. Mae hi wedi addasu i'r rôl yn wych ac mae'n gweithio'n uniongyrchol gyda swyddogion llawn-amser a gwirfoddol fel ei gilydd i ddarparu cymorth a syniadau ar gyfer ymgyrchoedd. Yn bersonol, mae hi wedi bod yn fendith. Rolau eraill yr ydym wedi'u llenwi yw Cydlynnydd Gwerthiant a Digwyddiadau'r Cyfryngau a Chydlynnydd Cyfathrebu; y mae'r ddwy ohonynt yn rhan o'n hadran gyfathrebu a byddant yn ased allweddol i'r undeb o ran helpu i ddatblygu ein presenoldeb ar-lein.

Gwobr *Womenspire*

Ym mis Hydref dyfarnwyd Gwobr *Womenspire* uchel ei bri i'r Undeb am fod yn Hyrwyddwyr Cydraddoldeb Rhywedd. Gwnaed llawer o waith caled i ennill y wobwr, gan gynnwys newidiadau mewn prosesau recriwtio, fel ceisiadau anhysbys a mabwysiadu proses weithio ystwyth; mae'r wobwr hon yn rhywbeth rydym yn falch iawn ohoni.

Strategaeth

Ym mis Medi, adolygodd yr Undeb ein strategaeth 3 blynedd, gan wneud newidiadau perthnasol yn seiliedig ar adborth myfyrwr a syniadau gan ein tîm swyddogion newydd. Rydyn ni'n teimlo'n hyderus yn ein cennad i fyfyrwr Aber garu bywyd myfyrwr, ac yn ein gweledigaeth i fyfyrwr Aber fod yn hapus, yn iach ac wedi'u grymuso, gyda dyfodol addawol a chyfeillgarwch fydd yn para am oes.

Diweddariad Llesiant - Connor Hunter-Wem

Mae Connor wedi gweithio gyda fi wrth ddod yn rhan o *Student Minds SUs*, sy'n golygu ein bod ni'n rhan o fframwaith sy'n gweithio gyda phrifysgolion eraill i sicrhau



bod ein prifysgol mewn gwell sefyllfa i ddelio ag iechyd meddwl. Mae wedi cadw mewn cysylltiad agos â swyddogion llesiant mewn UM eraill ledled y DU i greu canllawiau llesiant/unigrwydd cyfoes a llwyddiannus, a'r gobaith yw y byddant ar gael yn fuan iawn. Mae hefyd wedi cwblhau amryw o sesiynau hyfforddiant llesiant, gan gynnwys atal hunanladdiad ac ymwybyddiaeth o droseddau casineb (ar hyn o bryd mae'n gweithio tuag at ddod yn arweinydd ymwybyddiaeth ar gyfer troseddau casineb).

Mae Connor hefyd yn hyrwyddo amryw o ymgyrchoedd rhyddhad, gan gynnwys Mis Hanes Pobl Dduon, lle bu'n gweithio ar negeseuon cyfryngau cymdeithasol am hiliaeth mewn chwaraeon a Mudiad Mae Bywydau Pobl Dduon yn Bwysig. Yn ddiweddar mae wedi gweithio gyda holl aelodau staff yr UM i greu pecynnau cymorth ar gyfer myfyrwyr sy'n hunan-ynysu, ac mae'n cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r adran Cymorth i Fyfyrwyr er mwyn dod o hyd i ffyrdd o wneud y system llesiant yn fwy cefnogol yn ystod y cyfnod hwn. O ran polisiau, mae'n canolbwyntio ar basio'r polisi ar gyfer gofal iechyd i fyfyrwyr traws, gan siarad â'r staff perthnasol yn y brifysgol.

Diweddariad Cyfleoedd - Wojtek Salski

Ers ei benodi mae Woj wedi bod yn gweithio ar addasu gwaith y Swyddfa Cyfleoedd i'r amgylchedd Covid-19. Roedd hyn yn cynnwys greu Hyfforddiant Pwyllgor Ar-lein, Gweithgareddau Grwpiau Myfyrwyr trwy Fideo a pharatoi Clybiau a Chymdeithasau ar gyfer y flwyddyn academiaidd. Mae ei bolisi 'Modiwl Cyllid ar gyfer Clybiau a Chymdeithasau' wedi'i gwblhau trwy gyfathrebu effeithiol gyda staff y brifysgol ar y lefel uchel. Helpodd hefyd â chynnal Ffair y Glas Rithwir yn llwyddiannus; trefnodd gyfarfodydd wythnosol ar gyfer Datblygu Cymdeithasau / Clybiau gyda staff yr UM a threfnodd y proffiliau chwaraewyr ar gyfer Wythnos Ymgyrch #MaerFerchAberHonYn Gallu. Ar hyn o bryd mae'n canolbwyntio ar drefnu digwyddiadau sydd ar y gweill, gan gynnwys Her Aber, *Superteams*, Rhyngolgampau Farsiti a Gŵyl Gelf newydd yn unol â'r polisi cyfredol.

Diweddariad Materion Academiaidd - Chloe Ann Wilkinson-Silk

Mae Chloe wedi gweithio gyda'r brifysgol ar nifer o bwyllgorau gan gynnwys *Coronaregs* a gweithredu Dysgu ac Addysgu Llywodraeth Cymru. Un o'i chyflawniadau mwyaf hyd yn hyn oedd ehangu'r meini prawf ar gyfer gweithio gartref a gweithredu system apelio. Mae prosiectau llwyddiannus eraill Chloe yn cynnwys darparu hyfforddiant ar gyfer cynrychiolwyr academiaidd a chyfadran, dal i fyny â chynrychiolwyr sy'n dychwelyd, a chwblhau trefniadau arholiadau gan ystyried polisi dim anfantais y llynedd. Mae trafodaethau rhagweithiol bellach ar waith ar gyfer yr hyn a fydd yn digwydd i fyfyrwyr eleni. Yn olaf, mae hi wedi gwneud newidiadau sylweddol i *Turnitin*, gan gynnwys darparu mwy o wybodaeth am adroddiadau'n ymwneud â thebygrwydd yng ngwaith myfyrwyr. Mae arweiniad bellach ar gael i helpu myfyrwyr â dehongli'r canllawiau hyn, a chaniateir i bob myfyriwr wneud sawl cyflwyniad.



SENEDD!

UMCA – Moc Lewis

Mae Moc wedi ailstrwythuro UMCA i fod yn fwy cynhwysol trwy greu rolau newydd ar y pwyllgor, fel swyddog LHDTTC+, swyddog Ail Iaith a swyddog ar gyfer y rhai sy'n byw gartref, tra hefyd yn ail-greu pwyllgor Pantycelyn a fydd yn bwydo yn ôl i mi'r hyn sy'n digwydd ym Mhantycelyn. Mae wedi gweithio gyda phwyllgor UMCA i greu grŵp cyfieithu newydd o fewn UMCA a fydd yn ymgymryd â chyfieithiadau Cymraeg ar gyfer clybiau a chymdeithasau, gan felly gymryd pwysau oddi ar gyfieithwyr y brifysgol a'r undeb. Buddugoliaeth fawr arall fu ei gydweithrediad â phrifysgolion eraill, yn enwedig Bangor a Chaerdydd, i sefydlu gwefan Gymraeg ar gyfer cymorth iechyd meddwl (myf.cymru). Mae hyn yn defnyddio profiadau penodol myfyrwyr i geisio helpu myfyrwyr eraill; system gymorth lle mae myfyrwyr yn helpu myfyrwyr.

